Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Kay Martin
Cardiff & Vale College
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5FE

13 Ionawr / January 2022

Annwyl / Dear Kay Martin

**Ymweliad monitro prentisiaethau dysgu yn y gwaith**

Rhwng 16 a 18 Tachwedd 2021, ymwelodd Mark Evans AEM a Sandra Barnard AEM â'r darparwr a'i isgontractwyr i adolygu'r ffordd y cafodd ei raglenni prentisiaeth eu darparu yn ystod blwyddyn gyntaf y contract. Mae'r llythyr hwn yn darparu crynodeb o'r adborth o'r ymweliad hwn.

Partneriaeth o 23 o ddarparwyr prentisiaethau dan arweiniad Coleg Caerdydd a'r Fro yw'r Gynghrair Ansawdd Sgiliau. Mae'n cynnig prentisiaethau i 2175 o brentisiaid yn ne-ddwyrain, de-orllewin, canolbarth a gogledd Cymru. Mae'n darparu prentisiaethau ar draws deng maes dysgu ar lefel 2, lefel 3 a phrentisiaethau uwch. Y maes dysgu mwyaf yw adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig, sydd â 927 o ddysgwyr yn ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth ar hyn o bryd. Fel rhan o raglen beilot a ariennir gan Lywodraeth Cymru, mae deg prentis a rennir yn dilyn hyfforddiant mewn astudiaethau creadigol ac yn cael eu cyflogi gan Goleg Caerdydd a'r Fro.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Gynghrair Ansawdd Sgiliau gefnogi 357 o ddysgwyr a ddadleolwyd o bum darparwr hyfforddiant na ddyfarnwyd contract iddynt i ddarparu prentisiaethau. Bydd y dysgwyr hyn yn adeiladu ar eu dysgu blaenorol ac yn parhau â'u hyfforddiant â'r Gynghrair Ansawdd Sgiliau.

Mae'r Gynghrair Ansawdd Sgiliau yn dyrannu prentisiaid newydd ar sail perfformiad blaenorol isgontractwyr a'r galw gan gyflogwyr. Mae'n gweithio ar y cyd ag isgontractwyr i bennu disgwyliadau a gwerthoedd clir. Mae'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd â phob is-gontractwr, yn rhannu ystod eang o wybodaeth am berfformiad dysgwyr yn erbyn contract y brentisiaeth, ac yn rhannu'r newyddion diweddaraf gan randdeiliaid allweddol fel Llywodraeth Cymru a chyrff dyfarnu.

Mae tâl rheoli'r Gynghrair Ansawdd Sgiliau yn galluogi isgontractwyr i fanteisio ar ystod eang o gymorth, gan gynnwys rheoli gwybodaeth a hawliadau dysgwyr; adnoddau addysgu, dysgu ac asesu; arweiniad ar wybodaeth gan randdeiliaid allweddol, a'r gallu i fanteisio ar weithgareddau datblygiad proffesiynol i staff. Mae'r tâl ar raddfa symudol wedi'i seilio ar risg a lefel y cymorth sydd ei angen ar isgontractwyr.

Dywed y darparwr y bu gan athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr ffocws penodol yn ystod y pandemig i gefnogi dysgwyr i barhau ar eu rhaglenni a gwneud cymaint o gynnydd ag y bo modd. Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a roddwyd iddynt gan eu hathrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn ystod y pandemig, gan gynnwys cymorth personol. Bu'r maes dysgu iechyd a gofal cymdeithasol dan bwysau, gan na fu'n bosibl i aseswyr ymweld â gweithleoedd a chynnal asesiadau yn y gweithle yn ystod y pandemig. Mae galw mawr am brentisiaethau adeiladu ac mae cyflogwyr yn recriwtio nifer cynyddol o brentisiaid i fodloni eu llwythi gwaith trwm. Gweithiodd y Gynghrair Ansawdd Sgiliau'n galed i hwyluso'r broses o ddychwelyd i'r coleg i ddysgwyr a oedd ag asesiadau ymarferol yn weddill. Roedd hon yn flaenoriaeth uchel, a defnyddiwyd staff ac adnoddau'n hyblyg i gefnogi dysgwyr i gwblhau eu gwaith.

Ar hyd y pandemig, cefnogodd y darparwr ddysgwyr o bell drwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys pwyslais cryf ar gefnogi lles dysgwyr. Mae adborth dysgwyr ar ddysgu o bell yn amrywio ac yn aml wedi'i seilio ar y lefel a'r math o raglen y maent yn ei dilyn. Dywed prentisiaid uwch sy'n dilyn rhaglenni fel arweinyddiaeth a rheolaeth na fu llawer o aflonyddu ar eu dull cyflwyno ac asesu arferol. Yn aml, mae'n well gan ddysgwyr galwedigaethol fynychu gweithgareddau i ffwrdd o'r gwaith neu ddull cyfunol lle gellir cyflwyno ac asesu agweddau ar raglenni o bell. Mae'r gweithgareddau o bell hyn yn aml yn cynnwys unedau o dystysgrifau technegol a llythrennedd a rhifedd. Yn gyffredinol, dywed dysgwyr galwedigaethol a thechnegol eu bod yn falch o fynychu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith a gweithgareddau asesu unwaith eto.

****

**Work-based learning apprenticeship monitoring visit**

Between 16th and 18th November 2021, Mark Evans HMI and Sandra Barnard HMI visited the provider and its subcontractors to review the delivery of its apprenticeship programmes in the first year of the contract. This letter provides a summary of feedback from this visit.

The Quality Skills Alliance is a partnership of 23 apprenticeship providers led by Cardiff and the Vale College. The Quality Skills Alliance delivers apprenticeships in south-east, south-west, mid and north Wales to 2175 apprentices. They deliver apprenticeships across ten learning areas at level 2, level 3 and higher apprenticeships. The largest learning area is construction, planning and the built environment with 927 learners currently undertaking apprenticeship programmes. As part of a pilot programme funded by the Welsh Government, ten shared apprentices are undertaking training in creative studies and are employed by Cardiff and Vale College.

The Quality Skills Alliance was asked by the Welsh Government to support 357 displaced learners from five training providers who were not awarded an apprenticeship delivery contract. These learners will build on their previous learning and continue their training with the Quality Skills Alliance.

The Quality Skills Alliance allocates new apprentice starts based on a subcontractor's previous performance and employer demand. They work in partnership with subcontractors setting clear expectations and values. They maintain regular contact with all subcontractors, sharing a wide range of information on learner performance against the apprenticeship contract and updates from key stakeholders such as Welsh Government and awarding bodies.

The Quality Skills Alliance management fee gives subcontractors access to a wide range of support including learner information and claims management; teaching, learning and assessment resources; guidance regarding information from key stakeholders and access to professional development activities for staff. The fee is on a sliding scale based on risk and the level of support required by subcontractors.

The provider reports that teachers, trainers and assessors have been particularly focused during the pandemic to support learners to remain on programme and make as much progress as possible. Learners appreciate the support given to them by their teachers, trainers and assessors during the pandemic, including personal support. The learning area of health and social care has been under pressure with assessors not able to undertake workplace visits and assessment during the pandemic. Demand for construction apprenticeships is high with employers recruiting increasing numbers of apprentices to meet their demanding workload. The Quality Skills Alliance worked hard to facilitate the return to college for learners who had outstanding practical assessments. This was a high priority with staff and resources being used flexibly to support learners to complete their work.

Throughout the pandemic the provider supported learners remotely through a range of activities, including a high emphasis on supporting the wellbeing of learners. Learners' feedback on remote learning is varied and often based on the level and type of programme they are following. Higher apprentices undertaking programmes such as leadership and management report little disruption to their normal delivery and assessment method. Vocational learners often favour attending off-the-job activity or a blended approach where aspects of programmes can be delivered and assessed remotely.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

These remote activities often include units of technical certificates and literacy and numeracy. Vocational and technical learners generally report that they are pleased to be back to attending off-the-job training and assessment activities.

Yn gywir / Yours sincerely



**Jackie Gapper**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol /
Assistant Director

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.